# Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 Adran 6

Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Adroddiad 2022

Rhagfyr 2022

# Cynnwys

**1.0. Cyflwyniad a Chyd-destun ....... 3**
**2.0. Canllawiau Statudol ....... 6**
**3.0. Gofynion penodol Adran 6 ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru ....... 7**
Adroddiad cynnydd ....... 7
Cynllun Dyletswydd Adran 6 ....... 7
**4.0. Uchafbwyntiau, Canlyniadau Allweddol a Materion ....... 9**
**5.0. Adroddiad ar y Camau Gweithredu ....... 10**
**6.0. Adolygiad o Ddyletswydd Adran 6 ....... 12**

**Mynegai Tablau**

TABL 1 – FFORMAT CYNLLUN DYLETSWYDD ADRAN 6 ....... 10

**Mynegai Ffigurau**

FFIGUR 1 – Y CYD DESTUN – DYFYNIAD O GYMRU'R DYFODOL – Y CYNLLUN CENEDLAETHOL 2040 4

FFIGUR 2 – DYNODIADAU AMGYLCHEDDOL – DYFYNIAD O GYMRU'R DYFODOL – Y CYNLLUN CENEDLAETHOL 2040 4

## 1.0. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1 Mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru wedi pennu swyddogaethau sy'n ymwneud â pharatoi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, y Cynllun Datblygu Strategol ac arfer pwerau Llesiant Economaidd. Nodir y rhain yn benodol fel a ganlyn:

(a) Llesiant economaidd (adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021);

(b) Polisïau Trafnidiaeth (adran 108(1)(a) a (2A)(a) o Ran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000); a


(c) Chynllun Datblygu Strategol (Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004).

1.2 Yn y bôn mae'n rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru lunio Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynllun Datblygu Strategol, tra bydd ganddo'r pŵer i hyrwyddo llesiant economaidd o fewn y rhanbarth..


1.3 Aelodau Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru yw arweinwyr gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro, Dinas a Sir Abertawe ynghyd ag aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. Mae gan aelodau Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru yr hawl i bleidleisio mewn perthynas ag unrhyw fater sydd i'w benderfynu gan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol, oni bai am aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, sy'n gallu pleidleisio ynghylch materion sy'n ymwneud â swyddogaethau cynllunio strategol yn unig.

1.4 Dylid cyfeirio hefyd at y wybodaeth a nodir eisoes ar-lein, gan gynnwys gwybodaeth fanwl am gyfansoddiad Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru.

Dylid cyfeirio hefyd at y Cynllun Corfforaethol 2023-2028 sydd ar y gweill.




**FFIGUR 1 – Y CYD DESTUN – DYFYNIAD O GYMRU'R DYFODOL – Y CYNLLUN CENEDLAETHOL 2040**




**FFIGUR 2 – DYNODIADAU AMGYLCHEDDOL – DYFYNIAD O GYMRU'R DYFODOL – Y CYNLLUN CENEDLAETHOL 2040**

1.5 Dylid nodi bod Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn endidau diweddar iawn ledled Cymru, a chynhaliodd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru ei gyfarfod cyntaf ym mis Ionawr 2022. I'r perwyl hwn, mae'n amlwg y bydd yr Adroddiad Adran 6 hwn yn gyfyngedig o ran cwmpas gan mai ychydig iawn o weithgarwch sydd wedi bod yn ystod y cyfnod hwn. Felly, bydd pwyslais yr adroddiad hwn ar ddangos sut mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru yn ymdrin â'i ddyletswyddau Bioamrywiaeth wrth symud ymlaen, yn enwedig o ran sut mae ystyriaethau o'r fath yn cael eu hymgorffori'n barhaus i'w lywodraethu corfforaethol.

# 2.0. Canllawiau Statudol

2.1 Mae'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau bod Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Fel un o'r Awdurdodau Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, bydd yn ofynnol iddo geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer ein swyddogaethau'n briodol ac wrth wneud hynny yn hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

2.2 Mae paragraff 49.2 o'r canllawiau yn cadarnhau'r canlynol: "er mwyn cydymffurfio â dyletswydd Adran 6 mae'n rhaid i Gyd-bwyllgorau Corfforaethol ymgorffori'r ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau yn y cam cynnar ac yn y broses o gynllunio busnes, gan gynnwys mewn unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau o ddydd i ddydd".

# 3.0. Gofynion penodol Adran 6 ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru

## Adroddiad cynnydd

3.1 Mae'n rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad ynghylch yr hyn rydym wedi'i wneud i gydymffurfio â dyletswydd Adran 6 erbyn 31 Rhagfyr 2022 ac yna bob tair blynedd ar ôl y dyddiad hwn. I'r perwyl hwn, dylid nodi bod yr Adroddiad Adran 6 hwn yn bwriadu cwrdd â'r gofyniad hwn. Cyflwynwyd yr Adroddiad Adran 6 hwn o'r blaen yng nghyfarfod Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru ar 7 Rhagfyr 2022 a bydd copi yn cael ei anfon at Dîm Polisi Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru. Nid oes gofyniad i ymgynghori ynghylch yr Adroddiad Adran 6 hwn.

## Cynllun Dyletswydd Adran 6

3.2 Hefyd mae'n rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud i gydymffurfio â dyletswydd Adran 6. Nid yw Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru wedi paratoi Cynllun Dyletswydd Adran 6 yn y gorffennol. Dylid nodi bod y Cynllun Corfforaethol cyntaf ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru yn cael ei lunio ar hyn o bryd. Cyflwynwyd y Cynllun Corfforaethol Drafft hwn yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru ar 7 Rhagfyr 2022.

3.3 Mae trafodaethau â Swyddogion Polisi Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru wedi dangos ei bod yn briodol i Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru ymgorffori ei Gynllun Dyletswydd Adran 6 yn ei Gynllun Corfforaethol - ac mewn gwirionedd byddai hyn yn well nag un unigol (cadarnheir hyn hefyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru). Er nad oes amserlen benodol i gyhoeddi ei Gynllun Dyletswydd Adran 6 cyntaf, mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru wedi manteisio ar y cyfle i'w gyhoeddi yn y cyfnod cynnar hwn, gan ei ymgorffori yn y Cynllun Corfforaethol. Ystyrir bod hyn yn bwysig fel bod egwyddorion allweddol yn cael eu hymgorffori o'r cychwyn cyntaf.

## 4.0. Uchafbwyntiau, Canlyniadau Allweddol a Materion

4.1 Fel y nodwyd eisoes, dim ond am gyfnod byr y mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru wedi bod yn weithredol ac o gofio'r pwyslais ar ei sefydlu o safbwynt llywodraethu/cyfansoddiadol, a chwmpas cyfyngedig y swyddogaethau/pwerau sydd ar gael iddo, prin yw'r wybodaeth sydd i'w darparu mewn perthynas â gweithredoedd sy'n ymwneud yn benodol â Bioamrywiaeth.

4.2 Mae llawer o'r uchafbwyntiau yn 2022 wedi cynnwys meithrin perthynas ag eraill, gyda thrafodaethau ac ymgysylltu cychwynnol yn digwydd gydag ecolegwyr yn y rhanbarth a chyda Swyddogion Polisi Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru. Mae ffocws wedi bod ar godi ymwybyddiaeth o Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru yn gyffredinol, gan gynnwys rhoi cyflwyniad i Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin.

4.3 Mae'r broses o lunio Cynllun Dyletswydd Adran 6 wedi ysgogi dealltwriaeth gynyddol o fewn Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru ynghylch Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) ar gyfer Cymru a'i chwe amcan, ynghyd â Datganiad Ardal De-orllewin Cymru (SWWAS) a'i themâu.

4.4 Yn amlwg, y canlyniad allweddol a'r uchafbwynt yn 2022 yw llunio a chyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol cyntaf oll a fydd yn ymgorffori'r Cynllun Dyletswydd Adran 6 cyntaf oll.

## 5.0. Adroddiad ar y Camau Gweithredu

5.1 Dim ond rhai camau gweithredu sydd i'w rhestru oherwydd y cyfnod byr a natur y gweithgarwch, ond ystyrir ei bod yn briodol nodi'n gryno yn yr Adroddiad Adran 6 hwn y dulliau a fydd yn cael eu mapio yng Nghynllun Dyletswydd Adran 6. Mae'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur wedi chwarae rhan allweddol wrth lunio Cynllun Dyletswydd Adran 6. Mae'r dull gweithredu a'r ffocws ar ymgorffori ystyriaeth o ddyletswyddau Adran 6 i lywodraethu corfforaethol Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru, a nodir y bydd ffrydiau gwaith penodol yn y dyfodol (e.e. y Cynllun Datblygu Strategol) yn destun trefniadau craffu trylwyr o ran dynodiadau (gan gynnwys y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol) a bydd eu polisïau eu hunain yn cael eu hunioni e.e. Nodyn Cyngor Technegol 5 - cadwraeth natur a chynllunio. Isod y mae fformat arfaethedig Cynllun Dyletswydd Adran 6 fel y'i nodir o fewn y Cynllun Corfforaethol.

**TABL 1 – FFORMAT CYNLLUN DYLETSWYDD ADRAN 6**

| Amcan y Cynllun Gweithredu Adfer Natur | Dyfyniad o'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur | Camau Gweithredu Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru | Thema Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru |
|---|---|---|---|

5.2 Canlyniadau nodedig eraill Cynllun Dyletswydd Adran 6 yw sicrhau y cyfeirir at ei gynnwys yn Adroddiadau y Swyddog Gweithredol i Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru. Hefyd, ni fwriedir i fioamrywiaeth gael ei hystyried ar ei phen ei hun fel y dangosir drwy fabwysiadu Pecyn Cymorth Asesiad Effaith Integredig gan Gyd-

bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru (sy'n cynnwys adran ar fioamrywiaeth). Yn bwysig iawn, bydd y Cynllun Corfforaethol hefyd yn nodi dull Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru o gyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

5.3 Ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Corfforaethol, y camau gweithredu allweddol wrth symud ymlaen yw sicrhau bod elfennau o Gynllun Dyletswydd Adran 6 yn cael eu rhoi ar waith a'u bod yn rhan annatod o lywodraethu corfforaethol Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru.

# 6.0. Adolygiad o Ddyletswydd Adran 6

6.1 Nid yw'n briodol cynnal adolygiad ar hyn o bryd.

6.2 Mae disgwyl i'r Cynllun Corfforaethol cyntaf erioed (gan gynnwys Cynllun Dyletswydd Adran 6) ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru gael ei fabwysiadu'n ffurfiol ym mis Mawrth 2023.

6.3 Bydd y Cynllun Corfforaethol ei hun yn ddarostyngedig i broses barhaus o fonitro ac adolygu fel y bo'n briodol. I'r perwyl hwn, bydd cyfleoedd ar gael i sicrhau bod Cynllun Dyletswydd Adran 6 yn cael ei weithredu'n addas.

6.4 Ystyrir y bydd yr adroddiad Adran nesaf a drefnir yn 2025 yn caniatáu ar gyfer canolbwyntio llawer mwy ar gamau gweithredu a dull myfyriol o ran y cynnydd hyd yma – gan gynnwys yr effaith y mae Cynllun Dyletswydd Adran 6 yn ei chael ar wneud penderfyniadau a llywodraethu corfforaethol cyffredinol.